

Ei gwneud yn haws pleidleisio

Papur Gwyn ar Weinyddu a Diwygio Etholiadol




Llywodraeth Cymru
Welsh Government





Mae'r ymgynghoriad hwn hefyd ar gael yn Saesneg.

Helo



 Mae pleidleisio mewn etholiadau yn ffordd bwysig o leisio barn ar faterion sy'n eich poeni. Mae Llywodraeth Cymru eisiau newid y gyfraith a gwella sut mae etholiadau lleol ac etholiadau'r Senedd yn cael eu cynnal yng Nghymru.

Rydyn ni eisiau gwybod beth rydych chi'n feddwl am ein cynlluniau.

-  Cliciwch ar y [ddolen hon](#) i ateb y cwestiynau wrth fynd ymlaen.
-  Crynodeb yw hwn. Mae cynigion eraill yn yr ymgynghoriad llawn [yma](#).

Ynghylch Senedd Cymru – Welsh Parliament.

Mae'r Senedd yn deddfu dros Gymru, yn rheoli trethi Cymru ac yn dal Llywodraeth Cymru i gyfrif. Mae'n gwneud penderfyniadau am Gymru, yng Nghymru.

Does gan y Senedd ddim pŵer dros bob deddf, mae rhai ohonyn nhw yn cael eu rheoli gan Lywodraeth y DU. Mae hynny'n cynnwys deddfau am etholiadau cyffredinol y DU.

Fe wnaeth y Senedd ostwng yr oed pleidleisio er mwyn i bobl ifanc 16-17 mlwydd oed allu pleidleisio mewn etholiadau lleol a'r Senedd.

Llywodraeth Cymru

Arweinydd Llywodraeth Cymru yw Prif Weinidog Cymru. Mae gennym ni lawer o wahanol bobl yn gweithio ar draws Cymru i gefnogi bywydau pobl.

Llinell amser

Sut rydyn ni wedi newid etholiadau yng Nghymru

Deddf Cymru 2017 – Roedd hyn yn ei gwneud hi'n bosib i benderfyniadau am wella etholiadau Cymru gael eu gwneud yng Nghymru.

Yn 2017 – Gofynnwyd i bobl yng Nghymru sut yr hofffen nhw i etholiadau newid.

Deddf Senedd ac Etholiadau (Cymru) 2020 a Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 – Mae'r deddfau hyn wedi newid etholiadau lleol ac etholiadau'r Senedd gan gynnwys:

- gostwng yr oed pleidleisio i 16
- rhoi'r pŵer i ddinasyddion tramor sy'n byw yng Nghymru bleidleisio
- rhoi grym i awdurdodau lleol newid eu system bleidleisio.

Nawr – Rydyn ni eisiau gwybod beth yw eich barn chi am ein cynlluniau i wella'r broses ethol ledled Cymru.



Ein gweledigaeth

Mae Cymru yn lle ble mae'n hawdd i bob dinesydd gymryd rhan yn ein democratiaeth, cael llais mewn etholiadau a phleidleisio.



Mae gennym ni 6 egwyddor mae'r newidiadau hyn wedi'u hadeiladu arnynt.

Tegwch – Mae pawb sydd eisiau cymryd rhan a phleidleisio yn gallu gwneud hynny. Maen nhw'n ddiogel ac yn cael eu parchu dim ots pwy ydyn nhw.

Hygyrchedd – Mae cymryd rhan a phleidleisio'n hawdd i'w wneud ar bob lefel o ddemocratiaeth.

Cymryd rhan – Gall pawb gael eu hawl i bleidleisio.

Gwella profiad dinasyddion – Gall pawb gymryd rhan wrth lunio eu cymunedau a'u gwlad.

Symrwydd – Mae sefyll mewn etholiad, cofrestru i bleidleisio a phleidleisio'n syml ac yn hawdd i'w wneud.

Gonestrwydd – Gall pawb yng Nghymru ymddiried yn y system etholiadol a gwybodaeth am etholiadau.

Ydych chi'n cytuno gyda'r chwe egwyddor?

Ydw Nac ydw Ddim yn gwybod



Ein nodau tymor hir ar gyfer etholiadau



Dylai pawb sy'n gymwys ac sydd am bleidleisio allu gwneud hynny. Ni ddylai unrhyw un gollu eu cyfle i bleidleisio oherwydd materion ymarferol, anabledd, diffyg gwybodaeth neu unrhyw reswm arall.

Rydym ni wedi ymrwymo i sicrhau bod pleidleisio'n hawdd, yn deg ac yn hygyrch i bawb.

Hyrwyddo Amrywiaeth

Mae ein cymunedau'n cynnwys llawer o wahanol bobl, oedrannau, cefndiroedd, diwylliannau a chredoau gwahanol. Rydym ni am i bleidiau gwleidyddol hyrwyddo amrywiaeth fel bod pawb sydd eisiau, yn gallu sefyll mewn etholiad, cymryd rhan a phleidleisio.

Rydym ni wedi ymrwymo i sicrhau bod pob cymuned yn cael ei chynrychioli mewn etholiadau lleol a'r Senedd.

Pleidleisio ar-lein

Ni ddylai unrhyw un gollu eu cyfle i bleidleisio am unrhyw reswm, megis bod allan o'r wlad neu yn yr ysbyty.

Mae nifer o bobl wedi gofyn am ffyrdd newydd o bleidleisio. Byddai rhai yn hoffi system bleidleisio ddiogel, ar-lein sy'n hawdd ei defnyddio ar eu cyfrifiadur neu ffôn clyfar. Ond mae rhai pobl yn poeni nad yw technoleg a systemau pleidleisio yn ddigon diogel eto ac na fyddai eu manylion yn ddiogel.

Dydyn ni ddim yn bwriadu symud i system bleidleisio ar-lein eto. Rydyn ni eisiau gwybod os yw pobl yn meddwl y dylen ni ymchwilio mwy i hyn.

? Ydych chi'n meddwl bod pleidleisio ar-lein yn syniad da?

Ydw Nac ydw Ddim yn gwybod
Pam?



Cronfa ddata Cymru gyfan

Rydym ni am sicrhau ei bod hi'n hawdd i bobl gofrestru i bleidleisio. Mae'n bwysig bod gwybodaeth yn gyfoes ac os yw rhywun yn symud ardal, nad yw eu manylion ar y gofrestr ar gyfer mwy nag un lle.

Gallai Cronfa Ddata Cymru Gyfan newydd helpu i sicrhau bod hyn yn digwydd. Gallai roi un **cod dynodwr unigryw** i bobl y gellir ei ddefnyddio i:

- gadw cofnodion yn gyfredol
- nodi os yw rhywun ar fwy nag un gofrestr
- rhoi mwy o ffyrdd i bobl bleidleisio yn y dyfodol.

Byddai symud i Gronfa Ddata Cymru Gyfan yn cymryd amser, adnoddau ac arian. Felly, rydyn ni'n dal i geisio penderfynu os yw hyn yn syniad da.

? **Ydych chi'n meddwl bod Cronfa Ddata Cymru Gyfan yn syniad da?**

Ydw	Nac ydw	Ddim yn gwybod
-----	---------	----------------

Pam?

Hyd tymhorau

Mae Cynghorau Lleol, a Chynghorau Tref a Chymuned yn rhedeg am bum mlynedd rhwng etholiadau. Mae rhai pobl yn meddwl bod hyn yn dda oherwydd ei fod:

- ar hyn o bryd yn cyd-fynd ag etholiadau eraill
- yn atal gormod o etholiadau rhag digwydd ar yr un pryd
- yn rhoi amser i gynghorau gynllunio a gwneud newidiadau i'w hardal.

Mae eraill yn meddwl y dylai gael tymor o bedair blynedd oherwydd ei fod yn:

- rhoi mwy o bŵer i bleidleiswyr wneud cynghorau yn atebol
- rhoi'r grym iddyn nhw bleidleisio dros rywun newydd os nad ydyn nhw'n hapus.

? **Ydych chi'n meddwl y dylai fod yn:**

Bedair blynedd?
Pum mlynedd?
Pam?





Pwy all bleidleisio?

I bleidleisio mewn etholiadau lleol neu etholiadau'r Senedd, mae'n rhaid i berson:

- fod yn gymwys i gofrestru i bleidleisio yn yr ardal leol
- fod yn 16 mlwydd oed neu'n hŷn ar ddiwrnod yr etholiad
- beidio bod yn y carchar, neu fod â rheswm cyfreithiol arall sy'n eu hatal rhag pleidleisio
- fod yn un o'r canlynol:
 - dinesydd Prydeinig, dinesydd y Gymanwlad neu ddinesydd Gweriniaeth Iwerddon
 - dinesydd tramor sydd â hawl gyfreithiol i fyw yn y DU
 - dinesydd o wlad yr UE.

Dydy'r rheolau yma ddim wastad yn hawdd i bobl eu deall. Hefyd, oherwydd bod y DU wedi gadael yr Undeb Ewropeaidd, mae angen i ni feddwl beth i'w wneud.

Gallem wneud y canlynol:

- ail-ysgrifennu'r gyfraith er mwyn ei gwneud hi'n haws i'w ddeall
- diweddarau'r gyfraith gan fod y DU wedi gadael yr UE (Brexit).

Beth bynnag rydyn ni'n ei ddewis, rydyn ni eisiau iddo fod yn glir ac yn hawdd i bobl ei ddeall.

? Ydych chi'n credu bod ei gwneud hi'n glir pwy all bleidleisio yn syniad da?

Ydw Nac ydw Ddim yn gwybod
Pam?



Cofrestru awtomatig

I gymryd rhan mewn etholiadau, mae'n rhaid i bobl gofrestru i bleidleisio.

Bob blwyddyn, mae'r awdurdod lleol yn gwirio eu cofrestr pleidleiswyr. Mae Swyddogion Cofrestru Etholiadol (EROs) yn cysylltu â phob cartref i wirio pwy sy'n byw yno. Mae hyn yn helpu i gadw'r manylion yn gyfredol a nodi pobl newydd sy'n cael eu gwahodd i gofrestru.

Yn 2017 fe ofynnon ni i bobl a ddylai Swyddogion Cofrestru Etholiadol allu ychwanegu pobl newydd at y gofrestr gan ddefnyddio gwybodaeth am bwy sy'n byw yn lleol. Roedd **77%** yn meddwl ei fod yn syniad da. A ni hefyd.

Rydym am weithio gyda Swyddogion Cofrestru Etholiadol i roi cynnig ar gofrestru awtomatig mewn rhai ardaloedd er mwyn sicrhau bod modd ychwanegu pawb yn ddiogel.

? Sut fydddech chi am gael gwybod eich bod chi wedi cael eich cofrestru i bleidleisio'n awtomatig a bod eich data personol yn ddiogel?



Gwella cyfraddau cofrestru myfyrwyr



Mae llawer o fyfyrwyr yn astudio yng Nghymru. Nid yw llawer ohonyn nhw'n cofrestru i bleidleisio, nac yn pleidleisio mewn etholiadau.

Rydym yn credu bod caniatáu i fyfyrwyr gofrestru yn ystod eu hwythnos gofrestru yn syniad da. Gallai hyn gael ei wneud drwy rannu gwybodaeth rhwng y Brifysgol a'r Awdurdod Lleol.

Byddai myfyrwyr yn cael gwahoddiad i bleidleisio gyda phecyn gwybodaeth y Brifysgol. Byddai prifysgolion yn casglu'r rhain, yn eu gwirio a'u hanfon ymlaen i Dîm Gwasanaethau Etholiadol yr Awdurdod Lleol.

Mae hyn wedi cael ei roi ar brawf yng Nghaerdydd. Cofrestrodd **8,340** o fyfyrwyr.

Rydym ni am weithio gydag Awdurdodau Lleol a Phrifysgolion i sefydlu hyn mewn ardaloedd eraill.

? Ydych chi'n meddwl bod hwn yn syniad da?

Ydw Nac ydw Ddim yn gwybod

Pam?





Gwybodaeth

Mae pobl angen gwybodaeth sy'n hawdd i'w deall ac yn gyfoes i'w helpu i wneud penderfyniadau ynghylch pleidleisio. Mae rhai pobl wedi dweud wrthon ni eu bod nhw:

- yn teimlo fod gwleidyddiaeth ac etholiadau yn ddryslyd
- yn teimlo fod etholiadau'n ddiflas
- methu dod o hyd i ddigon o wybodaeth am ymgeiswyr a phleidiau gwleidyddol.

Daw gwybodaeth am etholiadau o wahanol lefydd.

Mae'r Comisiwn Etholiadol

yn dweud wrth bobl am etholiadau. Mae hynny'n cynnwys sut mae cofrestru i bleidleisio, gwneud cais am bleidlais bost neu bleidlais ddirprwy a rhoi gwybodaeth arall angenrheidiol i bobl bleidleisio.

Mae awdurdodau lleol

yn rhoi gwybod i bleidleiswyr pryd mae etholiadau'n digwydd a lle y gallan nhw bleidleisio.

Mae ymgeiswyr

sy'n sefyll ar gyfer etholiadau yn dweud wrth bobl pwy ydyn nhw a pha blaid, os o gwbl, maen nhw'n gysylltiedig â nhw.

Rydyn ni eisiau:

- gwella gwybodaeth i bawb, gan gynnwys pobl anabl a phobl ag anableddau dysgu
- cael un lle ar-lein lle gall pobl ddod o hyd i'r hyn maen nhw ei angen
- datblygu canllawiau fel bod gwybodaeth yn hawdd i'w darllen a'i deall.

i Pleidleisio drwy'r post – os nad ydych chi'n gallu cyrraedd gorsaf bleidleisio, gallwch bleidleisio drwy'r post.

i Pleidleisio drwy ddirprwy – os nad ydych chi gartref neu ar gael ar ddiwrnod pleidleisio, gallwch gael rhywun arall i bleidleisio ar eich rhan.

Ydych chi'n meddwl bod y rhain yn syniadau da?

Ydw	Nac ydw	Ddim yn gwybod
Pam?		



Dileu rhwystrau i bobl anabl

Mae rhai pobl anabl yn wynebu heriau wrth bleidleisio. Mae hynny'n cynnwys materion sy'n defnyddio'r adeiladau lle mae'r gorsafoedd pleidleisio.

Rydym ni'n gweithio gyda'r Comisiwn Etholiadol ac awdurdodau lleol i wella pethau. Mae hyn yn cynnwys datblygu canllawiau newydd a hyfforddiant i staff gorsafoedd pleidleisio.

Rhaid i orsafoedd pleidleisio gael dyfeisiau sy'n helpu pleidleiswyr sy'n ddall neu sydd wedi colli eu golwg.

Mae Deddf Etholiadau 2022 yn golygu bod yn rhaid i awdurdodau lleol yn Lloegr ddarganfod beth sydd orau i'w pleidleiswyr. Rydym ni'n meddwl am y dull gorau o wneud hyn i Gymru.

? Sut y gellir cefnogi pleidleiswyr anabl i bleidleisio'n gyfrinachol ac yn annibynnol?

Cefnogi pobl ifanc



Yng Nghymru gall pobl ifanc 16-17 mlwydd oed bleidleisio mewn etholiadau lleol ac etholiadau'r Senedd nawr.

Mae gallu pleidleisio yn bwysig. Dydyn ni ddim eisiau i unrhyw un golli allan oherwydd diffyg gwybodaeth neu ddealltwriaeth.

Bwriad Cwricwlwm Cymru yw paratoi dysgwyr ar gyfer eu dyfodol. Mae hyn yn cynnwys eu helpu i ddysgu am wleidyddiaeth, democratiaeth, etholiadau a'u hawl i bleidleisio. Byddwn ni'n cefnogi ysgolion fel bod dysgwyr yn meithrin y sgiliau maen nhw eu hangen nhw i fod yn ddinasyddion gweithredol. Rydym ni hefyd wedi datblygu adnoddau i helpu i esbonio etholiadau yng Nghymru a'r DU.

? Beth arall allen ni wneud i gefnogi pobl ifanc i bleidleisio?



Ei gwneud yn fwy diogel i ymgeiswyr

Rydym ni am sicrhau bod ymgeiswyr yn ddiogel. Weithiau mae ymgeiswyr yn wynebu bwlio, cam-drin ar-lein, troseddau casineb, ac aflonyddu. Gall hyn ddigwydd mwy os yw'r ymgeisydd yn fenywaidd, LGBTQ+, neu o leiafrif ethnig.

Mae canllawiau i ymgeiswyr ar sut y gallan nhw ymgrychu'n ddiogel wedi'u cyhoeddi gan yr heddlu, y Comisiwn Etholiadol a'r awdurdodau lleol.

Yn Lloegr, mae Deddf Etholiadau 2022 yn amddiffyn hawl ymgeiswyr i beidio â chael eu dylanwadu gan eraill ac felly i weithredu yn ôl eu hewyllys rhydd eu hunain. Yr enw ar hyn yw "dylanwad gormodol". Yng Nghymru, hoffem ni i hyn ddigwydd hefyd.

Rydym ni hefyd am gymryd camau yn y **7 maes yma**:

- **Tystiolaeth:** Rydym ni am gasglu data am gam-drin ymgeiswyr er mwyn monitro'r broblem yn well.
- **Cyfathrebu:** Rydym ni am gyfathrebu'n well i nodi a lleihau camdriniaeth.
- **Costau:** Rydym ni am i ymgeiswyr allu hawlio arian i amddiffyn eu hunain rhag camdriniaeth neu gael help yn gyflym.
- **Cymorth a chyngor:** Rydym ni am i ymgeiswyr gael mwy o wybodaeth am ddiogelwch a beth i'w wneud os ydyn nhw'n profi cam-drin.
- **Cam-drin ar-lein:** Rydym ni am osgoi camdriniaeth ar gyfryngau cymdeithasol.
- **Datganiad o Bersonau a Enwebwyd:** Rydym ni am osgoi ymgeiswyr yn gorfod rhoi eu cyfeiriad cartref ar ddogfennau cyhoeddus, fel y ffurflen 'Datganiad o Bersonau a Enwebwyd'.



Ydych chi'n meddwl y bydd y camau hyn yn lleihau camdriniaeth ac yn gwneud ymgeiswyr yn fwy diogel?

Ydw Nac ydw Ddim yn gwybod
Pam?





Pleidleisio ymlaen llaw

Rydym ni am wneud pleidleisio mor hawdd â phosibl. Yn etholiadau lleol 2022 fe wnaethon ni drïo rhywbeth newydd. Roedd pobl ym Mlaenau Gwent, Caerffili a Thorfaen a rhai pobl ym Mhen-y-bont ar Ogwr yn gallu pleidleisio cyn y diwrnod pleidleisio ac mewn lleoliad sy'n fwy cyfleus iddynt.

Gofynnodd y Comisiwn Etholiadol i bobl beth oedden nhw'n ei feddwl a chasglu tystiolaeth. Fe wnaethon nhw ddarganfod:

- fod pleidleiswyr yn hapus â'u profiad o bleidleisio o flaen llaw
- bod pleidleiswyr yn hoffi'r hyblygrwydd a'r dewis, ond ni wnaeth gynyddu nifer y bobl wnaeth bleidleisio.

Rydym ni'n dal i ystyried hyn, ac opsiynau eraill. Er enghraifft: gallem roi mwy o ddiwrnodau i bobl bleidleisio a mwy o lefydd i bleidleisio fel colegau, ysgolion, gweithleoedd.

? Ydych chi'n meddwl bod hwn yn syniad da?

Ydw Nac ydw Ddim yn gwybod

Beth arall fyddai'n annog pobl i bleidleisio?

Gwneud cais am bleidleisiau post neu drwy ddirprwy (pleidleisio absennol)

Mae gan Ddeddf Etholiadau'r DU 2022 bwerau i sefydlu system Ceisiadau Pleidleisio Absennol ar-lein a fyddai'n caniatáu i bobl wneud cais am bleidleisiau post neu drwy ddirprwy yn etholiadau cyffredinol y DU neu etholiadau comisiynwyr heddlu a throsedd.

Byddai'r system ar-lein newydd hon yn:

- ei gwneud hi'n haws gwneud hi'n haws gwneud cais am bleidlais bost neu bleidlais drwy ddirprwy ar gyfer yr etholiadau hynny
- gwirio hunaniaeth person a stopio gwallau.

Rydym ni'n meddwl am gael yr un math o system ar gyfer etholiadau'r Senedd a llywodraeth leol yng Nghymru.

? Ydych chi'n meddwl bod hwn yn syniad da?

Ydw Nac ydw Ddim yn gwybod

Pam?





Gwella pleidleisio drwy'r post

Mae nifer y pleidleiswyr Cymreig sy'n pleidleisio drwy'r post yn codi. Yn Etholiad Senedd 2021:

- cyhoeddwyd dros **458,000** o bleidleisiau post
- cynnydd o fwy na **16%** ers 2016.

Mae pleidleisio drwy'r post yn hyblyg. Gall pobl bleidleisio yn eu cartref eu hunain, yn eu hamser eu hunain. Ond, mae yna bryderon:

- weithiau nid yw pobl yn gwybod bod eu pleidlais bost wedi dod i law.
- weithiau maen nhw'n ei lenwi'n anghywir, ac mae'n cael ei wrthod. Mae hyn yn golygu nad yw eu pleidlais yn cyfrif.

Mae gennym ni ddiddordeb mewn cyflwyno **system olrhain pleidlais bost electronig**. Byddai hynny'n dweud wrth bobl os yw eu pleidlais bost wedi dod i law neu os ydyn nhw wedi gwneud camgymeriad. Byddai'n rhoi amser iddyn nhw ei gywiro fel bod eu pleidlais yn cyfrif. Byddai hyn yn gwneud pobl yn fwy hyderus i bleidleisio trwy'r post ac yn lleihau nifer y pleidleisiau post sy'n cael eu gwrthod.

Ydych chi'n meddwl bod system olrhain electronig yn syniad da?

Ydw Nac ydw Ddim yn gwybod

Pam?

Cofrestri digidol

Yn etholiadau lleol 2022, yn lle cofrestri papur, rhoddodd rhai awdurdodau lleol gynnig ar Gofrestri Digidol yn eu gorsafoedd pleidleisio.

Gofynnodd y Comisiwn Etholiadol i bobl beth oedden nhw'n ei feddwl a chasglu tystiolaeth. Fe wnaethon nhw ddarganfod:

- ei fod yn gwneud pethau'n llawer cyflymach
- ei fod yn fwy hyblyg ar gyfer pleidleiswyr
- bod y rhan fwyaf o awdurdodau lleol am barhau i ddefnyddio'r system yn y dyfodol.

Roedd rhai awdurdodau lleol yn poeni am:

- gostau newid
- preifatrwydd a diogelwch gwybodaeth pobl.

Er nad ydym yn ystyried defnyddio Cofrestri Digidol yn orfodol nawr, hoffem barhau i annog eu defnydd mewn etholiadau yn y dyfodol.

Ydych chi'n meddwl bod Cofrestri Digidol yn syniad da?

Ydw Nac ydw Ddim yn gwybod

Pam?




? Ydych chi'n credu y bydd ein cynigion yn cael effeithiau cadarnhaol neu negyddol ar yr iaith Gymraeg? Allwch chi egluro beth rydych chi'n meddwl fydd yr effeithiau?

? Oes unrhyw beth arall mae'n rhaid i ni feddwl amdano wrth wneud newidiadau i etholiadau yng Nghymru?

Diolch am ddarllen hwn

Cliciwch ar y [ddolen](#) hon i ateb y cwestiynau neu anfonwch eich atebion i:

 Is-adran Etholiadau Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

 etholiadau.ymgynghoriad@llyw.cymru

 Erbyn: 10 Ionawr 2023

